PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 20 MEHEFIN 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Mackie, Murphy a/ac Lister |

1 : PENODI CADEIRYDD AC AELODAU'R PWYLLGOR

Yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 24 Mai 2018, penodwyd y Cynghorydd David Walker yn Gadeirydd y Pwyllgor a'r aelodau canlynol i'r pwyllgor:

Y Cynghorwyr Berman, Bowen-Thompson, Boyle, Cunnah, Lister, Hudson, Mackie a Murphy.

2 : CYLCH GORCHWYL

Craffu, monitro ac adolygu gweithrediad cyffredinol Rhaglen Gwella Caerdydd ac effeithiolrwydd gweithredu polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor yn gyffredinol, gan gynnwys:

- Materion Cyfansoddiadol a Rheoli Busnes y Cyngor
- Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd
- Datblygu Polisïau Strategol
- Rhaglenni Strategol
- Cynllunio Cymunedau a Fforwm Gweledigaeth
- Cysylltiadau'r Sector Gwirfoddol
- Cynnwys ac Ymgysylltu â Dinasyddion
- Cyfathrebu Corfforaethol
- Gwasanaethau Canolfan Gyswllt a Mynediad at Wasanaethau
- Polisi Rhyngwladol
- Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd
- Cydraddoldeb
- Grantiau Corfforaethol a Chyllidol
- Datblygu Sefydliadol
- Rhaglen Effeithiolrwydd Caerdydd
- E-Lywodraeth
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
- Eiddo'r Cyngor
- Comisiynu a Chaffael
- Rheoli Carbon
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Craffu, monitro ac adolygu effeithiolrwydd systemau rheoli a gweinyddu arian y Cyngor a'r defnydd o adnoddau dynol.

Asesu effaith partneriaethau gydag adnoddau a gwasanaethau a gynigir gan sefydliadau allanol, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, gwasanaethau llywodraeth leol

ar y cyd, Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan Lywodraeth Cymru a chyrff lled-adrannol anllywodraethol ar effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor.

Adrodd y canfyddiadau yn y cyfarfod Cabinet neu Gyngor perthnasol a rhoi argymhellion ynghylch mesurau a all wella perfformiad y Cyngor a'i wasanaethau yn y maes.

3 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDENB

Cytnghorwyr Hudson a Murphy

4 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Roedd gan yr Aelodau gyfrifoldeb dan Erthygl 16 Cod Ymddygiad yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant ac i gwblhau Ffurflenni Buddiant Personol, ar ddechrau'r eitem agenda dan sylw.

5 : COFNODION

Llofnodwyd Cofnodion 16 Ebrill 2018 fel cofnod cywir.

6 : BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

Croesawodd y Cadeirydd y Partneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus canlynol:

- Cyngor Caerdydd, Huw Thomas (Arweinydd a Chadeirydd BGC Caerdydd), Paul Orders, Prif Weithredwr, a Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau.
- Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, Maria Battle, Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y BGC, a Fiona Kinghorn, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd;
- Cyfoeth Naturiol Cymru, Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru;
- Gwasanaeth Tân De Cymru, David Bents, Rheolwr Grŵp.

Cynghorwyd yr Aelodau gan y Cadeirydd yn unol â chyfrifoldeb statudol dros graffu ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, bod hyn yn gyfle i ystyried y trefniadau llywodraethiant ar gyfer cyflawni'r Cynllun Llesiant. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod pob corff cyhoeddus yn rhwym i ddyletswyddau newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'i ddiben yw sicrhau ein bod yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol, ac yn cyrchu nod cyffredin i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Eglurodd Paul Orders, y Prif Weithredwr, gyfrifoldebau'r BGC wrth y Pwyllgor.

Roedd partneriaeth y BGC yn fwrdd statudol, nid partneriaeth ar gyfer cyflawni holl uchelgais y Cyngor ar gyfer y ddinas, ond ar gyfer cyflawni materion cyhoeddus o bwys na ellid eu cyflawni ar eu pennau eu hunain. Roedd y ffocws yn cyfeirio at gyflawni o fewn trefniadau gweithio ar y cyd yn enwedig:

- Gadael Ysbyty
- Ansawdd Aer

- Cymorth i Deuluoedd

Roedd y rhain yn faterion Strategol a oedd yn manteisio ar gydweithredu agos. Roedd y cyngor hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol a oedd yn ymwneud â'r Fargen Ddinesig a oedd yn anstatudol. Roedd y BGC yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth cyhoeddus mewn meysydd allweddol. Roedd y Pwyllgor yn gyfarwydd â'r Cynllun Corfforaethol a lefel uchel yr integreiddio rhwng yr Amcanion Llesiant, oedd hefyd ag angen lefel uchel o gydweithio a phartneriaid.

Roedd hi'n hanfodol fod y partneriaid cywir gan y BGC yn eu lle i gefnogi ac arddangos ymrwymiad cryf i gyflawni newid cadarnhaol. Roedd trefniadau llywodraethiant hefyd wedi eu datblygu, a oedd yn canolbwyntio ar y materion cywir â phwrpas eglur.

Pwysleisiodd Maria Battle, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Dirprwy Gadeirydd y BGC bwysigrwydd rôl y BGC a'r Byrddau Rhaglen i gyflawni Uchelgais Prifddinas a'r cynllun Llesiant, a rhannau o Strategaethau'r Bwrdd Iechyd. Roedd cydweithio ar draws y sector cyhoeddus yn galluogi blaenoriaethau i gael eu cyflawni yn y cynllun Llesiant a datblygu'r trefniadau Llywodraethiant llyfn. Canolbwyntiodd y Byrddau Rhaglen hefyd ar y Blaenoriaethau llesiant a'r camau yn y cynllun. Cydnabuwyd fod perthnasoedd rhagorol wedi eu datblygu ar lefel arweinwyr a lefel swyddogion.

Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Drefniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd gan Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau.

Gofynnodd y Cadeirydd pam na gafodd y cyfeiriad at Graffu ei gynnwys yn y cyflwyniad. Dywedodd y swyddogion fod hynny i osgoi cymhlethdod ar y siart.

Dywedodd Maria Battle wrth y Pwyllgor fod y BGC yn myd i gyflawni ar sail ar y cyd, a oedd hefyd yn cynnwys mynd i'r afael â'r materion Iechyd ychwanegol.

Cyfeiriodd Fiona Kinghorn, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus Cymru at y mesurau ataliol oedd ar waith a'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud trwy'r trefniadau gweithio ar y cyd.

Siaradodd David Bents, Rheolwr Grŵp Gwasanaeth Tân De Cymru am Ddiogelwch Cymunedol a'r rhaglen cyflogadwyedd.

Croesawodd Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), berthnasoedd y BGC, gan egluro fod y gwaith yn mynd rhagddo i nodi bachau o fewn y Cynllun ar gyfer CNC, yn bennaf cynaladwyedd a thwf cynaliadwy.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y strwythur yn cael ei greu trwy'r byrddau a gofyn sut oedd yr amcanion llesiant yn cael eu datblygu gan nad oedd Cynlluniau Gweithredu ar hyn o bryd.

Cynghorwyd Aelodau fod y Briff Rhaglenni yn amlinellu amrywiol raglenni a mentrau. Roedd Ansawdd Aer er enghraifft yn cael ei fireinio ac fe adroddid ar y project i'r

BGC.  Roedd cryn dipyn o aliniad o fewn y Cynllun Corfforaethol a byddai hyn hefyd yn dwyn trefniadau rheoli perfformiad ynghyd.

Roedd y Pwyllgor yn cydnabod yr aliniad rhwng y Cynllun Corfforaethol a'r Cynlluniau Llesiant, ac fe holodd sut oedd y gwaith o fapio cynlluniau y sefydliadau unigol yn cael eu dwyn yn eu blaenau.

Dywedwyd wrth Aelodau am y strategaeth 10 mlynedd i gefnogi teithio llesol a chynaliadwyedd.  Yr heriau sydd yn eu lle i hyrwyddo cyflawniad er mwyn cydweddu â'r amcanion, gan gynnwys y blaenoriaethau ar gyfer Caerdydd.  Roedd hyn yn rhan o'r trefniadau llywodraethiant i gefnogi cyflawni ar y cyd er mwyn sicrhau cyflawni amcanion a rennid.

Tynnodd y pwyllgor sylw at y trefniadau cyflawni gan bwysleisio pwysigrwydd creu awyrgylch a oedd yn herio yr hyn oedd partneriaid yn ei wneud.

Holodd aelodau'r Pwyllgor pam nad oedd y Bwrdd Diogelwch Cymunedol wedi cwrdd.  Mewn ymateb, eglurwyd fod y mecanwaith cywir ar gyfer cyflawni amcanion ar gyfer Diogelwch Cymunedol yn mynd rhagddo.   Roedd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r cymhlethdod gan edrych ar y strwythur ynghylch y BGC a chytuno ar lefel y cymhlethdod. `

Cyfeiriodd y Pwyllgor at baragraff 26 y Cynllun a oedd yn nodi:
"I sicrhau adrodd integredig, bydd angen cymryd ymagwedd tebyg i adrodd ar gynnydd yn erbyn Cyflawniad Cynllun Ardal Caerdydd a Bro Morgannwg i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Iechyd a Gofal Cymdeithasol integredig."  Yn yr un modd, roedd angen egluro trefniadau adrodd Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg" gan gwestiynu'r cymhlethdod a'r heriau a ddaeth o fod â byrddau rhaglenni lluosog a Grwpiau Gorchwyl a Gorffen er enghraifft.  Roedd Aelodau yn bryderus am nifer y cyfarfodydd ac yn aneglur a fydda'r cymhlethdod yn tarfu ar gyflawniad.

Dywedwyd wrth Aelodau y gallai Amcanion Corfforaethol a oedd i'w cyflawni wneud y broses yn gymhleth.  Roedd rhai Byrddau wedi ymddangos yn seiliedig ar gyflawniad a byrddau eraill ar sail strwythurau a fodolai eisoes.   Cydnabuwyd fod y BGC yn ychwanegu lefel o gymhlethdod. Fodd bynnag, gellid gweld symleiddio sylweddol ar drefniadau cyflawni partneriaethau yng Nghaerdydd yn sgil y broses hon.

Byddai'r rhaglen yn parhau i esblygu a byddai'r trefniadau ar y cyd yn parhau i cefnogi cyflawni.  Roedd Cynllun Cymru Fwy Iach, yn canolbwyntio ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn enghraifft o Iechyd a'r Cyngor yn canolbwyntio ar gyflawni nod gyffredin.

Roedd y Pwyllgor yn poeni fod ymrwymiad iechyd a Chydraddoldeb i ymchwil yn amhenodol yn y Cynllun.    Ymhellach, nid oedd digon o fanylion yn y cynllun am Strategaeth Pwysau Iach a oedd yn cyfeirio at faterion gorbwysau mewn plant.  Holodd Aelodau hefyd beth oedd y materion penodol a pha bryd y byddai'r targedau penodol a'r cynigion yn cael eu creu.

Dywedwyd wrth Aelodau fod cynnydd yn cael ei gofnodi yn Iechyd a Chydraddoldeb trwy gyfrwng dangosyddion.  Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r BGC i ddatblygu

a gwella y Strategaeth Pwysau Iach ac fe nodwyd fod angen gwaith pellach, gyda'r ffocws wedi ei gyfeirio ar ysgolion.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at aelodaeth y grwpiau a phwysigrwydd cynnwys lleisiau o'r tu allan i'r sector gyhoeddus.  Hyd yma ychydig o leisiau nad oedd yn perthyn i'r sector gyhoeddus a oedd i'w clywed ar y byrddau hyn. Ar ben hynny, hefyd, maint y byrddau, gan mai ond 6 aelod oedd ar rai ohonynt.  Sut crëwyd y byrddau, er mwyn sicrhau amrywiaeth ar y byrddau hynny.

Dywedwyd wrth Aelodau ei bod yn hanfodol deall gweithgareddau rheolwyr y byrddau, a oed dyn canolbwyntio ar brojectau allweddol ac a oedd yn cynnwys ystod o bartneriaid.  Ni fu bwriad i'r byrddau fod yn gyrff cynrychioliadol, roedden nhw yno er mwyn mynd i'r afael â chynnydd a chyflawni'r amcanion allweddol.

Roedd y Pwyllgor yn poeni am effaith BREXIT a gofynnwyd beth oedd y grŵp Gorchwyl a Gorffen y BGC yn ei wneud i geisio mewnbwn gan y sector breifat, a sut y gallai'r Pwyllgor fonitro hyn.

Dywedwyd wrth Aelodau ei bod yn hanfodol edrych ar y modd yr oedd busnesau yn ymateb i BREXIT, ynghyd â'r effaith ar Ddinasoedd Craidd.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gweithgaredd yn y byrddau rhaglenni yn cael ei fonitro er mwyn cael y sylfaen sgiliau cywir, ac yr adroddiad arno yn yr Adroddiad Blynyddol.
.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

7 : PERFFORMIAD CHWARTER 4 A CHANLYNIADAU 2017-18

Croesawodd y Cadeirydd y canlynol:

- Yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Christopher Weaver
- Paul Orders, Prif Weithredwr, Cyngor Dinas Caerdydd
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
- Joseph Reay, Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
- Andrew Simms, Rheolwr Gweithrediadau Perfformiad

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod hyn yn gyfle i adolygu sefyllfa berfformiad Chwarter 4 Corfforaethol y Cyngor ar ddiwedd 2017/18. Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro perfformiad cyffredinol y sefydliad, a'r camau a gymerir i sicrhau fod y targedau a'r ymrwymiadau a gytunwyd yn y Cynllun Corfforaethol yn cael eu cyflawni.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Weaver ei bod yn ddefnyddiol craffu ar yr adroddiad ac roedd yn gwerthfawrogi sylwadau'r Pwyllgor ar ba mor ddefnyddiol oedd y wybodaeth.  Roedd gwaith parhaus yn mynd rhagddo i ddatblygu a mireinio adrodd ar berfformiad a gwerthfawrogid adborth gan y Pwyllgor.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn amlinellu'r prif bwyntiau canlynol:

- Diweddariad ar Berfformiad Chwarter 4
- Cyfeiriad y Dyfodol
- Trosolwg Perfformiad 2017-2018
- Dangosyddion Cenedlaethol – Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC) 2017/18

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod gwelliannau wedi eu cydnabod gyda dangosyddion cadarn ar waith er mwyn tracio hyn.

Gofynnodd y Pwyllgor fod y Cerdyn Sgorio yn cael ei roi ar fformat amgen gan fod y dyluniad electronig presennol yn anodd ei ddarllen ar dabled.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fel rhan o'r chwarter cyntaf yno fod cyflwyniad mwy clir o wybodaeth Uchelgais Prifddinas wedi bod a bod hyn yn gyfle i wneud gwelliannau ar sut cai'r wybodaeth ei chyflwyno. Roedd newidiadau i'r Fframwaith Rheoli Perfformiad Cenedlaethol wedi arwain at ddangosyddion cymharol fach a gyda thrafodaethau yn canolbwyntio ar yr Asesiad Llesiant yn y dyfodol agos ei bod yn hollbwysig ceisio tynnu mwy o wybodaeth gymharol i mewn, am fod y wybodaeth Gymraeg yn dod yn fwy cyfyngedig.

Cyfeiriodd Aelodau'r Pwyllgor at y sgôr coch RAG yn yr adroddiad yn ymwneud ag absenoldeb salwch, mesuriadau swyddi gwag gweithwyr cymdeithasol a digartrefedd. Beth oedd y berthynas rhwng mesurau coch ac ambr gwyrdd, oherwydd bod angen cwestiynu 1% o feysydd coch yn y Cyngor.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr ymrwymiad yn y Cynllun Corfforaethol lawer lletach nag uchelgais a chwmpas. Roedd hyn yn gyfle i roi hyblygrwydd i bobl hunan-asesu, gyda chamau yn eu lle ar gyfer lliniaru.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn pryderu mai dim ond 57% o flaenoriaethau a oedd yn cwrdd â'u targedau.

Hysbyswyd y Pwyllgor y cafwyd problemau sylweddol yn y gwasanaethau Cymdeithasol, ond bod pethau cadarnhaol yn dechrau ymddangos, gyda chyfnodau o welliant yn cael eu cofnodi. Roedd targedau cadarn yn eu lle i gefnogi datblygiad a gwelliant. Roedd yn cael ei gydnabod fod absenoldeb salwch yn broblem a'u bod yn mynd i'r afael ag ef.

Trafododd y pwyllgor broblem absenoldeb salwch yn fanwl, gan dynnu sylw at y nifer o ddyddiau yn uwch na 10 a gollwyd. Roedd hi'n hanfodol bod swyddogion yn ymwybodol o'r canlyniadau parthed methu a chyflawni amcanion, hyd yn oed mewn sefydliad mawr megis Cyngor Caerdydd.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor ar y sefyllfa alldro ar gyfer gorwariant yn y Gwasanaethau Masnachol. Roedd hyn yn gyfuniad o nifer o ffactorau yn ymwneud â chontractau yn dod i ben ac arbedion ddim yn cael eu cyflawni. Roedd gwaith gyda'r Gyfarwyddiaeth hon yn mynd rhagddo a'r prif agweddau oedd materion yn ymwneud â Rheoli Cyfleusterau a Gwasanaethau Cludiant Masnachol. Nododd y pwyllgor fod y cwmpas yn y maes hwn yn lleihau.

Clywodd Aelodau fod ystod o resymau pam fod gorwariant yn y Gwasanaethau Masnachol a bod y Gyfarwyddiaeth wedi cyflawni ei ymrwymiadau ar gyfer cyflawni. Roed dy broses Rheoli perfformiad yn ei le ac roedd ymrwymiadau clir gan y Gyfarwyddiaeth i gyflawni.

Holodd y Pwyllgor paham y gwelwyd lleihad yn y y gyfradd Bodlonrwydd Cwsmeriaid. Mewn ymateb cynghorwyd y Pwyllgor yr adroddid ar hyn yn ôl i'r pwyllgor gyda diweddariad.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor fod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

8 : ADRODDIAD BLYNYDDOL 2017/18

The Committee received its Annual Report prior to its consideration by Full Council.

RESOLVED: The Committee AGREED the Annual Report 2017-18 for presentation to Council on 21 June 2018.

9 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

11 Gorffennaf 2018 am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 6.35 pm